

Fforwm Strategol Sirol yr iaith Gymraeg
11 Mawrth 2015
Ystafell Gynadledda, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin

Yn bresennol

Gwyneth Ayers	Cyngor Sir Gâr
Dai Bryer	Urdd Gobaith Cymru
Nerys Burton	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Aled Davies	Canolfan Cymraeg i Oedolion
Huw Evans	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Linda Evans	Estyn Llaw
Owain Glenister	Menter Bro Dinefwr
Bethan James	Cyngor Sir Gâr
Meirion Jones (Cadeirio)	Menter Gorllewin Sir Gâr
Gwyn Elfyn Jones	Menter Cwm Gwendraeth Elli
Marie Mitchell	Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr
Lowri Morgans	Coleg Sir Gâr
Euros Owen	Menter Bro Dinefwr
Dewi Snelson	Menter Gorllewin Sir Gâr
Cynghorydd Mair Stephens	Cyngor Sir Gâr
Wyn Thomas	Dyfodol i'r Iaith
Bethan Williams	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg
David Williams	Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Ymddiheuriadau

Dai Baker	Llywodraeth Cymru
Cynghorydd Ryan Bartlett	Cyngor Sir Gâr
Yvonne Davies-Grodzicka	Merched Y Wawr
Anne Dutton	Mudiad Meithrin
Gwilym Dyfri-Jones	Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Llinos Evans	Cyngor Sir Gâr
Owain Gruffydd	Menter Bro Dinefwr
Meinir James	Dyfodol i'r Iaith
Ruth Morgan	Clybiau Gwawr
Eirios Thomas	Mudiad Ffermwyr Ifanc Sir Gâr

1.	Croeso Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Meirion Jones ac aethpwyd o amgylch y Bwrdd er mwyn i bawb gyflwyno'i hunan.	
2.	Cofnodion y cyfarfod diwethaf 26.1.15 Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 26 Ionawr 2014 yn gofnod cywir.	
3.	Cylch Gorchwyl Cytunwyd ar gylch gorchwyl y Fforwm Strategol Sirol. Nodwyd bod angen cynnwys Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gâr ar y rhestr aelodaeth. Cytunwyd hefyd i newid y frawddeg <i>Gellir trefnu eilyddion ar gyfer y cyfarfodydd</i> i <i>Dylid trefnu eilyddion</i> ar gyfer y cyfarfodydd.	BJ

4. **Taflenni hyrwyddo'r Gymraeg i fusnesau**

Nodwyd bod angen cyfeirio at parch at y Gymraeg a chynnwys hanes y Gymraeg. Cytunwyd bod angen cynnwys y niferoedd o bobl sy'n siarad Cymraeg yn Sir Gâr a'r cyswllt rhwng iaith a diwylliant. (80,000 ac 1 o bob 2 o'ch cwsmeriaid). Roedd pawb yn gytûn bod angen argyhoeddi busnesau gyda data am fudd economaidd ac o bosib cynnwys ymchwil a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i fusnes yn 2005.

Nodwyd bod angen rhagarweiniad byr i roi cyd-destun ar y dechrau.

Gofynnwyd a fyddai modd rhoi'r wybodaeth ar LinkedIn ac hefyd i gynnwys clipiau rhyngweithiol yn cyfweld pobl busnes y sir a'u bod nhw'n nodi sut mae'r Gymraeg wedi bod o fudd iddyn nhw.

Recriwtio

Nodwyd bod angen:

- cyfeirio at yr angen i adnabod sgiliau iaith y gweithlu,
- cynnwys taflen sy'n asesu anghenion sgiliau iaith ar gyfer swyddi,
- dolen i wefan Cymraeg y Gweithle a dolen i'r asiantaethau/sefydliadau'r Fforwm,
- i'r dogfennau fod ar gael yn PDF er mwyn gallu eu hargraffu,
- newid manylion cysylltu Cymraeg i Oedolion.

Rhestr Siopa / Delwedd Gyhoeddus

Arfer dda – y Gymraeg i ddod yn gyntaf neu ar y chwith.

Angen tynnu sylw at ba mor bwysig yw hi bod y Gymraeg yn gywir.

Cyfarfodydd / Digwyddiadau Cyhoeddus

Angen rhoi manylion beth yw cyfieithu ar y pryd, pam mae'n cael ei ddarparu, a bod yr arfer yn parchu hawl siaradwyr Cymraeg.

Cyfeirio at y cyfryngau cymdeithasol – annog busnesau i roi negeseuon dwyieithog.

Nodwyd bod angen cynnal ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo'r Gymraeg ymysg busnesau.

Angen cynnwys y frawddeg 'Efallai nad yw pob dim fan hyn yn berthnasol i'ch cwmni ond efallai bod rhai o fewn eich cyrraedd chi' neu awgrymu iddynt wneud un peth bob hyn a hyn.

Nodwyd bod angen newid teitl tudalen 'Rhestr Siopa' i 'Camau Bach' ac edrych beth yw'r posibilrwydd o gyflwyno'r syniad fel pyramid - Cyrraedd y Brig. Gweithlu ~ Cynnal busnes dwyieithog ~ Delwedd gyhoeddus. Cyfeiriwyd at asesiad siarter busnes Ceredigion sy'n cynnwys rhestr wirio.

Dylunio Dwyieithog

Angen ychwanegu Y Gymraeg i ddod gyntaf ac ar y chwith.

Wrth gyflwyno'r wybodaeth ar wefan y Cyngor, gofynnwyd i roi'r wybodaeth ar PDF ac i roi dolen ar waelod y dudalen i'r wybodaeth (PDF) blaenorol a nesaf.

Angen cynnwys 'Er bod ofnau...' ar ddechrau'r taflenni.

	<p>Cyfeirio at ymchwil Beaufort Research 2005 yn y cyd-destun ar y dechrau, nid yn unig ar dudalen 6 ac i gynnwys yr elfen am y grant ar y dechrau hefyd.</p> <p>Cyfeirio at ‘Ganllaw Dylunio Dwyieithog’ Comisiynydd y Gymraeg.</p> <p>Nodwyd bod angen cynnwys negeseuon cadarnhaol... mae mwy a mwy o gynghorau bro yn defnyddio'r Gymraeg, mae cynnydd mewn galw am addysg ddwyieithog.</p> <p>Ar ôl diwygio'r testun, bydd drafft arall yn dod i'r cyfarfod nesaf.</p> <p>Dylid newid teitl Cyfarfodydd Dwyieithog i Digwyddiadau Dwyieithog. Newid pwynt bwled rhif 3 (Er mwyn cynnwys pawb yn y drafodaeth boed yn siaradwyr Cymraeg neu'n ddi-Gymraeg): Rhoi cyfle teg i Gymry Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg.</p> <p>Nodwyd bod angen cynnwys ym mhob adran beth yw'r budd i'r busnes.</p> <p>Angen cynnwys ‘Adnabod pencampwr iaith o fewn eich busnes’ a chyfeiriwyd at adnodd cwmni Sglein. Cyfeiriwyd at anfon y pecyn busnes at bobl yn y sector breifat er mwyn iddynt edrych drosto.</p> <p>Soniwyd bod y Bartneriaeth Ddysgu Ranbarthol wedi cael grant Bwrw Mlaen Llywodraeth Cymru i weithio gyda Cyflogwyr/Busnesau, Sefydliadau addysg a disgyblion a dysgwyr.</p>	
<p>5.</p>	<p>Ardaloedd a ddewiswyd gan y Mentrau fel ardaloedd blaenoriaeth</p> <p>Soniodd OG fod Menter Bro Dinefwr wedi dewis: Tref Rhydaman – Mae gwaith dwys wedi dechrau yn yr ardal eisoes yn enwedig o ran trosglwyddiad iaith. Mae tipyn o bobl di-Gymraeg ynghlwm â digwyddiadau cymunedol felly mae'r Fenter yn cydweithio. Mae'r Fenter yn ystyried dechrau clwb pontio. Llanymddyfri a Llandeilo – Mae'r ysgol yn cau a mae nifer o fewnfudwyr yn yr ardal. Mae angen Cymreigio gweithgarwch cymunedol. Mae eisiau sefydlu Clwb Cymraeg i ieuencid yn yr ardal.</p> <p>Soniodd NB fod Menter Cwm Gwendraeth Elli wedi dewis: Cydweli a Mynydd y Garreg – nifer y siaradwyr Cymraeg wedi disgyn yn sylweddol er bod cynnydd wedi bod yn y boblogaeth. Mae sefyllfa addysg Gymraeg yn effeithio ar yr ardal. Mae'r Fenter eisiau gweithio gyda'r Cyngor Tref a Chydweli 900. Llanelli a'r cyffiniau – dirywiad sylweddol yn y nifer o siaradwyr Cymraeg. Mae galw am addysg ddwyieithog yn yr ardal.</p> <p>Soniodd DS fod Menter Gorllewin Sir Gâr wedi dewis: Tref Caerfyrddin – 36% o'r trigolion sy'n siarad Cymraeg ond mae dros 5,000 o siaradwyr Cymraeg. Mae tair ward yn y dref wedi mynd o dan 40% am y tro cyntaf erioed. 39.8% o blant 3-15 oed sy'n siarad Cymraeg ac mae hyn yn is na chyfartaledd y Sir. Mae trosglwyddiad iaith yn broblem hefyd yn y dre. Mae nifer fawr wedi nodi eu bod nhw'n deall Cymraeg ac mae angen magu hyder y rhai hynny sy'n deall Cymraeg. Mae angen gweithgareddau i ddarparu rieni a</p>	

	<p>hyrwyddo addysg Gymraeg. Mae angen mwy o weithgareddau cymdeithasol a hamdden, a chymreigio/dwyieithogi'r gweithgarwch cymunedol.</p> <p>Plwyf Llanfihangel yr arth – 57.5% yn siarad Cymraeg. Mae'r gymuned wedi colli 182 o siaradwyr Cymraeg dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae trosglwyddiad iaith ymhlith cartrefi un rhiant sy'n siarad Cymraeg yn isel a mae mewnfudo yn uchel yn yr ardal. Mae angen gwneud gwaith ymchwil i weld ble mae'r boblogaeth yn mynd i wneud eu gweithgareddau. Mae angen rhoi cymorth i Neuadd ysgol y pentref a Chanolfan deuluol Pencader. Mae angen canolbwyntio hefyd ar ddilyniant addysg cyfrwng Cymraeg i'r sector uwchradd.</p> <p>Nodwyd bod angen i bob partner o amgylch y Bwrdd gyfrannu ac ystyried beth allant wneud. Bydd y Ganolfan Cymraeg i Oedolion yn cynllunio cyrsiau ar gyfer yr Hydref a nodwyd ei bod hi'n ddefnyddiol i gael gwybod am yr ardaloedd lle bydd mwy o waith yn digwydd.</p> <p>Nodwyd bod fformat TWF yn newid gan fod Llywodraeth Cymru wedi penodi ardaloedd penodol o fewn y Sir i weithio gyda Chaerfyrddin yn un o'r ardaloedd hynny. Nodwyd hefyd bod targed oedran TWF yn newid o blwydd i dwy a hanner. Mae angen cysylltu â TWF i weld pa ardaloedd maent yn targedu.</p> <p>Soniwyd bod angen i'r Mentrau gynnal cyfarfodydd fesul ardal a nodwyd bod angen trafod gyda phobl lawr gwlad. Cyfeiriwyd at fudiadau a phartneriaethau sy'n bodoli ond nid ydynt yn gweithredu'n Gymraeg ar hyn o bryd. Nodwyd pwysigrwydd siarad â'r mudiadau / pwyllgorau lleol i'w argyhoeddi nhw bod angen gweithredu'n ddwyieithog.</p> <p>Cytunwyd bod angen cynllunio strategol ar gyfer yr ardaloedd a thargedu'r angen yn ôl beth yw'r dystiolaeth.</p> <p>Bydd Clwb Cinio Meibion Caerfyrddin yn cynnal cyfarfod nos Lun nesaf 16 Mawrth i edrych sut mae'r negeseuon yn cael eu lledaenu. Nodwyd bod gwirfoddolwyr yn y sir yn barod i helpu.</p> <p>Gofynnwyd i fudiadau eraill i adrodd yn y cyfarfod nesaf beth maent yn gwneud yn yr ardaloedd uchod a beth allant wneud. Cytunwyd bydd angen mesur effaith a chytuno ar beth i fesur ar gyfer pob ardal.</p> <p>Tynnwyd sylw at beth sydd wedi digwydd yn Nwyfor gyda chymhathu mewnfudwyr.</p> <p>Soniwyd bod diffyg hyder yn broblem a bod angen mynd i'r afael â chodi hyder. Cyfeiriwyd at ddylanwadau bywyd a sut mae hyn yn effeithio ar ddewisiadau a phenderfyniadau unigolion i ddefnyddio neu beidio defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd.</p> <p>Cytunwyd y dylai pob partner benderfynu erbyn y cyfarfod nesaf beth mae nhw'n gallu cyfrannu gyda'r Mentrau yn arwain. Bydd y Cyngor yn cysylltu â swyddogion y Llywodraeth i ofyn am eu barn a'u cefnogaeth gyda'r cynlluniau hyn.</p>	<p>BJ</p> <p>Pawb</p> <p>BJ</p>
--	--	--

	Dosbarthodd Owain Glenister fanylion am Bartneriaeth Aman Tawe a chytunwyd i'w ddsbarthu dros e-bost.	OG/BJ
6.	<p>Trafod yr argymhellion</p> <ul style="list-style-type: none"> Argymhelliad 5: Parhau i annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau a chymdeithasu yn yr iaith Gymraeg trwy gefnogi mudiadau a chymdeithasau a thrwy sbarduno mentrau newydd. Argymhelliad 7: Ehangu peilot Cynllun Aman Tawe i ardaloedd eraill sydd wedi profi shifft ieithyddol amlwg yn y blynyddoedd diweddar a chefnogi datblygiadau pellach yng ngoleuni Adolygiad Prifysgol Caerdydd. <p>Nodwyd bod yr argymhellion wedi cael eu trafod yn rhan o drafodaethau eraill yn ystod y cyfarfod.</p>	
7.	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Cyngor Sir Gâr <p>Rhodddwyd diweddariad ar waith Cyngor Sir Gâr a nodwyd bod modd gweld adroddiad mis Ionawr ar wefan y Cyngor.</p> <p>Cyfeiriwyd at ymgynghoriad 'Datblygu'r Cynllun Tai Fforddiadwy: Eich Cartrefi, Eich Dyfodol – Cyrraedd y nod gyda'n gilydd' sydd wedi dechrau ddoe ac ar agor tan 29 Mai.</p> <p>Nododd Lowri Morgans fod modd i Goleg Sir Gâr gynnal cwrs Cymraeg i staff busnesau a bydd modd iddynt dderbyn tystysgrif ar ddiwedd y cwrs. Mae'r cwrs yn gwrs hanfodol i bawb sy'n astudio cwrs galwedigaethol a maent yn derbyn credydau am ei gwblhau sy'n cyfrannu at gyfanswm eu credydau.</p>	
8.	Dyddiad y cyfarfod nesaf: 13 Mai 2015	